



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Gwerthusiad o brosiect Mynediad i Wasanaethau Ariannol drwy Undebau Credyd: Adroddiad Terfynol

Crynodeb Ymchwil

Ymchwil gymdeithasol

Rhif y ddogfen: 51/2014

Comisiynodd Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau Llywodraeth Cymru werthusiad o Brosiect Mynediad i Wasanaethau Ariannol drwy Undebau Credyd (y cyfeirir ato fel y Prosiect Undebau Credyd) yn 2010. Fe ymgymrodd Old Bell 3 Cyf a'r gwerthusiad tymor hir yma rhwng 2010 a 2014.

Dyma bedwerydd adroddiad, ac adroddiad terfynol, y gwerthusiad hirdymor oedd a'r nod o 'asesu effaith ac effeithlonrwydd y Prosiect Mynediad i Wasanaethau Ariannol drwy Undebau Credyd ac i ba raddau y cafodd ei nodau ac amcanion eu cyflawni'.

Cyflwyniad

Cyflwynwyd y prosiect Undebau Credyd gyntaf ym mis Ebrill 2009 ac yn ystod ei gyfnod cyntaf darparwyd o £1.9 miliwn o gyllid peilot (cyfalaf a refeniw) drwy Lywodraeth Cymru a chyllid rhanbarth Cydgyfeirio yr Undeb Ewropeaidd i gefnogi ehangu a chynaliadwyedd undebau credyd Cymru. Trefnodd Llywodraeth Cymru i Ganolfan Cydweithredol Cymru weinyddu cronfeydd y prosiect undebau credyd a darparu cefnogaeth i'r sector.

Canfu ein Hadroddiad Blwyddyn Gyntaf fod y prosiect a ariannwyd gan yr Undeb Ewropeaidd naill ai wedi cyflawni neu ragori ar bedwar o dargedau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) ond wedi methu cyflawni'r pumed targed olaf sef cefnogi 2,847 o unigolion i gael mynediad i wasanaethau ariannol. Roedd y prif heriau a ddynodwyd yn ystod ein gwerthusiad o'r cyfnod cyntaf yn ymwneud â'r datgysylltiad rhwng targedau'r Cynllun Gweithredu Undebau Credyd, Cynllun Busnes WEFO a'r targedau contract ar gyfer undebau credyd unigol, yn ogystal â diffyg cysondeb yn nhermau diffinio targedau a ariannwyd gan WEFO.

Dechreuodd ail gyfnod y prosiect ym mis Hydref 2010 a daeth i ben yn Rhagfyr 2013. Ariannwyd yr ail gyfnod gyda bron £3.5 miliwn o gyllid, gyda £1.88 miliwn o hyn yn gyllid yr Undeb Ewropeaidd. Ym Mehefin 2013 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fod cyllid ychwanegol ar gael i'r sector hyd Fawrth 2014 a ganol Mawrth (ar ôl cwblhau ein gwaith maes) cyhoeddodd y byddai £1.7 miliwn arall ar gael i'r sector hyd Fawrth 2017.

Nod ail gyfnod y prosiect oedd 'cefnogi datblygu mudiad undebau credyd cryf, cadarn ac effeithlon yng Nghymru sy'n darparu gwasanaeth ariannol ansawdd uchel hygyrch, fforddiadwy a chyfartal a all gyflawni anghenion holl ddinasyddion Cymru, ac yn arbennig y rhai yn yr angen mwyaf'.¹

Dros ail gyfnod y prosiect cefnogwyd 17 undeb credyd drwy Gytundebau Ariannu Gwasanaeth o Fudd Economaidd Cyffredinol (SGEI). Yn ychwanegol dyfarnodd

Llywodraeth Cymru contract am weinyddu cytundebau ariannu yn ogystal â darpariaeth cefnogaeth i undebau credyd yng Nghymru i The Social Investment Business (TSIB).

Methodoleg

Mae'r adroddiad terfynol hwn yn seiliedig ar raglen waith a gynhaliwyd rhwng Medi 2014 ac Ionawr 2014 ac mae'n ychwanegu at ganfyddiadau gwerthusiad interim a gynhaliwyd rhwng Mai a Thachwedd 2012. Mae'r rhaglen waith ar gyfer yr adroddiad yma wedi cynnwys:

- Mynychu cyfarfod cynllunio gyda Grŵp Llywio'r Gwerthusiad i gytuno ar y rhaglen waith ar gyfer y gwerthusiad terfynol;
- Diweddarau'r adolygiad llenyddiaeth o bolisi a deddfwriaeth y Deyrnas Unedig a pholisi a deddfwriaeth Cymru;
- Adolygu datblygiadau allweddol yn ymwneud â benthyciadau diwrnod cyflog a'r effaith ar y sector;
- Adolygu dogfennau cyflenwi a data monitro ail gyfnod y prosiect;

¹ Cynllun Busnes Mynediad i Wasanaethau Ariannol drwy Undebau Credyd (Cyfnod Dau) a baratowyd gan Lywodraeth Cymru ac a gyflwynwyd i WEFO (Rhif Adnabod Achos 806617) Tudalen 3

- Adolygu data ariannol a pherfformiad undebau credyd Cymru;
- Diweddarau offerynnau ymchwil ac ymgynghori gyda rhanddeiliaid;
- Cynnal ymweliadau manwl i wyth undeb credyd a chyfweliadau gyda rheolwyr pum undeb credyd arall;
- Ailymweld â thri Undeb Credyd 'rheoli' nad oeddent yn ymwneud â'r prosiect.

Canfyddiadau

Cyflwynwyd y prosiect o fewn cydestun polisi cefnogol Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru - yn wir mae'r gefnogaeth wleidyddol wedi tyfu'n ddiweddar oherwydd y problemau cynyddol sy'n gysylltiedig gyda benthyciadau diwrnod cyflog. Fodd bynnag, er nifer o gyhoeddiadau diweddar gan Lywodraeth Cymru am gyllid ychwanegol i'r sector, ni chafwyd datganiad polisi penodol a manwl gan Lywodraeth Cymru ers i Gynllun Gweithredu yr Undebau Credyd ddod i ben yn 2013.

Canfu ein hymchwil fod y prosiect Undebau Credyd yn gymharol lwyddiannus wrth gyflawni ei nodau a'i amcanion ac y gwnaed cynnydd

rhesymol, er nid yn gyson ar draws y mudiad undebau credyd, tuag at y nod o ddarparu 'gwasanaeth ariannol ansawdd uchel hygyrch, fforddiadwy a chyfartal'. Gwnaed peth cynnydd tuag at ddatblygu 'mudiad undebau credyd cryf, cadarn ac effeithlon' er bod y rhwygiadau parhaus o fewn y mudiad yn awgrymu na chafodd hyn ei gyflawni'n llawn.

Drwyddi draw mae'r prosiect wedi perfformio'n rhesymol dda ar y targedau a ariannwyd gan WEFO ac wedi perfformio'n eithriadol o dda ar ei darged ar gyfer cefnogi unigolion sydd wedi eu hallgáu'n ariannol drwy gefnogi dros 23,000 ohonynt - dylid canmol undebau credyd am eu hymdrechion i gynyddu eu haelodaeth ymysg y grŵp neilltuol yma. Gwnaed cynnydd da tuag at y targedau ar gyfer 2020 a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu yr Undebau Credyd ac er bod y targedau hyn yn heriol iawn, maent yn gyraeddadwy cyn belled â bod cefnogaeth ariannol Llywodraeth Cymru yn parhau. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu twf yn aelodaeth undebau credyd a thwf rhesymol yn y sylfaen asedau a'r portffolio benthyciadau dros gyfnod y prosiect ac mae'r adborth yn awgrymu fod

llawer o'r twf hwn i'w briodoli i gefnogaeth cyllid SGEI a fu ar gael. Er y bu rhai gwelliannau i strwythur ariannol undebau credyd (e.e. gostyngiad mewn dyledion drwg), mae undebau credyd yn dal yn gymharol wan yn y cyswllt hwn oherwydd eu bod yn dal i fod â chostau gweithredu uchel iawn ac yn dal mwy o gronfeydd arian nag a ddymunid. Dangosodd ein cyfnod diweddaraf o waith maes newid sylweddol mewn agweddau undebau credyd tuag at ddod yn sefydliadau ariannol gynaliadwy er bod llawer yn dal i ddibynnu'n drwm ar gyllid Llywodraeth Cymru i gefnogi eu gweithgareddau ar hyn o bryd.

Ein casgliad yw y gallai'r prosiect fod wedi sicrhau gwell gwerth am arian ond bod cyfyngiadau difrifol y data sydd ar gael yn cyfyngu asesiad llawn o'r effaith economaidd. Yn wir awgrymwn yn gryf y dylai unrhyw brosiect yn y dyfodol gasglu gwybodaeth am werth y benthyciadau a ddyfarnwyd er mwyn meintioli effaith y gefnogaeth a roddwyd.

Argymhellion

Mae'r gwerthusiad yn gwneud chwe argymhelliad, sef:

1. y dylai Llywodraeth Cymru egluro a chyhoeddi ei bwriadau ar gyfer y sector undebau credyd yng Nghymru drwy ddatganiad polisi a fyddai'n ychwanegu at ei chyfathrebiad i'r sector yn ystod 2013, ac yn ystyried os mai dim ond undebau credyd a all gyflawni ei nod o ddarparu gwasanaethau ariannol i unigolion sydd wedi eu hallgáu'n ariannol neu wneud hynny yn y modd mwyaf priodol.
2. os yw Llywodraeth Cymru'n dymuno parhau ei hamcan polisi o gefnogi darpariaeth gwasanaethau ariannol i unigolion sydd wedi eu hallgáu'n ariannol, yna dylai adolygu'r ffordd y caiff y gwasanaethau hyn eu hariannu i sicrhau'r gwerth gorau am arian. I gyflawni hyn awgrymwn y dylai cyllid fod ar gael ar sail gystadleuol a bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod fod angen cyllid parhaus i gefnogi unigolion sydd wedi'u hallgáu'n ariannol, yn neilltuol o fewn

- cyd-destun y cynnydd sylweddol iawn mewn dyled a defnydd benthyciadau diwrnod cyflog.
3. bod Llywodraeth Cymru yn gofyn i ddarparwyr gwasanaeth sydd â contract i ddarparu gwasanaethau i unigolion sydd wedi'u hallgáu'n ariannol i adrodd ar y nifer o unigolion sydd wedi'u hallgáu'n ariannol a gefnogwyd, nifer y benthyciadau a ddyfarnwyd i'r unigolion hyn yn ogystal â gwerth benthyciadau a ddyfarnwyd i'r grŵp hwn er mwyn gallu adrodd yn well ar effaith economaidd yr ymyriad a'r gwerth am arian a gafwyd.
 4. dylai Llywodraeth Cymru ddisgwyl i ddarparwyr gwasanaeth gyflawni meini prawf gweithredu gofynnol fel rhan o unrhyw ofynion contract darpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol. Byddai hyn yn golygu er enghraifft y dylai Llywodraeth Cymru ddisgwyl i ddarparwyr gynnig gwasanaeth hygyrch i gwsmeriaid bydded hynny ar ffurf oriau agor hirach (e.e. rhwng 9am a 5.30pm ar o leiaf ddau ddiwrnod yr wythnos) neu drwy lwyfannau ar-lein (e.e. galluogi cwsmeriaid i wneud cais am fenthyciadau ar-lein ac i weld cyfriflenni ar-lein ac yn y blaen).
 5. os yw Llywodraeth Cymru yn dymuno parhau ei hymrwymiad i ddatblygu undebau credyd ariannol gynaliadwy yna dylai ddarparu Cymorth Buddsoddi ar sail tapr i undebau credyd yn unol â hynny, ac ar wahân i gyllid ar gyfer darparu gwasanaethau i unigolion sydd wedi'u hallgáu'n ariannol. Yn y dyfodol dylai cyllid ar gyfer y diben hwn, yn gyllid cyfalaf a hefyd gyllid refeniw, fod yn ddibynnol ar undebau credyd yn cyflwyno cynlluniau busnes derbyniol sy'n amlinellu'n glir sut y bwriadant ddod yn sefydliadau cynaliadwy o fewn cyfnod penodol ac sy'n

rhoi sicrwydd o
lywodraethiant da.

6. bod darpariaeth
gwasanaethau cymorth i
undebau credyd (yn
cynnwys yng nghyswllt
cryfhau llywodraethiant) yn
cael ei gynnal yn y dyfodol a
bod hyn ar gael drwy
Gymorth Buddsoddi
Llywodraeth Cymru a roddir i
undebau credyd.

I gael rhagor o wybodaeth,
cysylltwch â:

Dr Michael Harmer
Gwasanaethau Gwybodaeth a
Dadansoddol
Llywodraeth Cymru
Swyddfa Merthyr Tudful
Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Ffôn: 0300 0628500
E-bost:
michael.harmer@wales.gsi.gov.uk
<http://www.cymru.gov.uk/ymchwil>

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth
Cymru, 2014
ISBN: 978-1-4734-1314-6
© Hawlfraint y Goron 2014